## CYLCH MEITHRIN Y FELINHELI

## POLISI AIL AGOR LLEOLIAD MEITHRIN YN SGIL CYFNOD DAN GLO COVID -19

**Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael. Os oes unrhyw amwysedd am eiriad y polisi, y fersiwn Gymraeg sy'n gywir bob tro.**

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn dilyn y newidiadau yn y polisi hwn a'i addasu yn ôl yr angen a'i adolygu yn unol â diweddariadau Llywodraeth Cymru.

Bydd **arweinydd Cylch Meithrin Y Felinheli** sicrhau fod pob aelod o staff yn deall y polisi hwn.

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod am y polisi hwn trwy gymryd y camau canlynol:

1. Ar dudalen Facebook y Cylch
2. Ar wefan y Cylch
3. Ar gael yn y Caban
4. Ei anfon ar e-bost i rieni / gwarchodwyr plant y Cylch

**Nod**

Nod y cylch yw sicrhau lles, diogelwch a datblygiad pob plentyn o dan ei ofal a phob aelod staff, aelodau teuluoedd a gwirfoddolwyr sydd yn dod i gysylltiad gyda'r lleoliad.
Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bawb sydd yn gysylltiedig â'r Cylch gan gynnwys rhieni, plant staff a gwirfoddolwyr.

Gofynnir i bob aelod o staff arwyddo iddynt ddarllen a deall y polisi hwn a rhennir y polisi hwn gyda rhieni a gofalwyr. Mae cynnwys y polisi hwn yn orfodol. Mae'r polisi wedi ei fabwysiadu ar gyfer y cyfnod amser pan fo perygl oddi wrth y feirws Covid-19. Bydd y polisi a'r gweithdrefnau newydd hyn yn atodol ac yn cymryd blaenoriaeth dros bolisïau blaenorol y Cylch Meithrin ble mae newid arferiad yn digwydd.

Mae'r ddogfen hon wedi ei chynllunio i'w darllen ochr yn ochr a Chanllaw Llywodraeth Cymru i Ddarparwyr Gofal Plant (https://llyw.cymru/diogelu-staff-phlant-rhag-y-coronafeirws-mewn-gofal-plant) a Chanllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau Addysg: Diogelu Addysg (COVID-19) https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-diolgeu-addysg-covid-19 .

**Hawliau Plant**

Mae'r Cylch Meithrin yn parchu hawliau plant yn unol â datganiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mewn amserau o argyfwng mae'n bwysicach nag erioed bod gwaith y Cylch yn parhau i amddiffyn a gweithredu hawliau plant. Gweler fersiwn Comisiynydd Plant Cymru o'r Hawliau hyn yma.

**Paratoadau ail-agor y lleoliad**
Disgwylir i Gylch Meithrin Y Felinheli ail agor ym Mis Chwefror 2021. Byddwn yn annog rhieni i adael i'w plant fynychu'r Cylch os nad oes anghenion ynysu ganddynt oherwydd cyflyrau meddygol. Mae mynychu'r Cylch yn fuddiol o safbwynt addysg, datblygiad a lles plant.

**Ystyriaethau oherwydd cyfnod dan glo**
Os yw adeilad y Cylch wedi bod ar gau am sawl wythnos, heb unrhyw ddefnydd o'r systemau dŵr oer a phoeth, mae'r siawns y gallai'r bacteria sydd yn achosi clefyd y rhengfilwyr ('Legionnaires') dyfu yn y system. Gall Clefyd y Rhengfilwyr achosi math o niwmonia all fod yn angheuol.

Gyda nifer gynyddol o bobl hefyd yn fwy agored i glefyd 'Legionnaires' oherwydd niwed i systemau anadlu yn sgil dioddef haint â COVID-19 mae'n bwysig eich bod yn cymryd camau i wirio iechyd eich systemau dŵr.

Bydd y Cylch yn rhoi ystyriaeth i'r cyngor a geir gan Cwlwm yma a gan y Chartered Institute of Environmental Health yma a gweithredu yn ôl yr angen.

Fersiwn 1:3
Chwefror 2021
Ceri Rhiannon a Catrin Elis – Personau Cofrestredig; Anneka Williams – Arweinydd
Elusen Gofrestredig: 1094577

**Presenoldeb yn y Cylch Meithrin**

**Plant gyda Symptomau**

Ni ddylai unrhyw blentyn fynychu'r Cylch Meithrin os oes ganddyn nhw neu os oes gan rywun yn eu cartref symptomau gallai fod yn Covid-19. Mae rhain yn cynnwys

- Peswch parhaus newydd
- Tymheredd uchel
- Colled synhwyrau blasu ag arogli

Ni ddylent fynychu'r Cylch os ydynt wedi derbyn cais i ynysu am 10 diwrnod oddi wrth system dracio ag olrhain Cymru. Ni ddylent fynychu'r Cylch os ydynt wedi dod i gysylltiad gyda pherson sydd wedi cael prawf Covid-19 ac yn aros am ganlyniadau.

**Oedolion gyda Symptomau**

Ni ddylai unrhyw oedolyn fynychu'r Cylch Meithrin os oes ganddyn nhw neu os oes gan rywun yn eu cartref symptomau gallai fod yn Covid-19.

- Peswch parhaus newydd
- Tymheredd uchel
- Colled synhwyrau blasu ag arogli

Ni ddylent fynychu'r Cylch os ydynt wedi derbyn cais i ynysu am 10 diwrnod oddi wrth system dracio ag olrhain Cymru. Ni ddylent fynychu'r Cylch os ydynt wedi dod i gysylltiad gyda pherson sydd wedi cael prawf Covid-19 ac yn aros am ganlyniadau.
Mae gweithdrefn ymateb i berson sydd yn dangos symptomau isod.

**Grwpiau o bobl â Iechyd Bregus**

**Canllawiau ar ddiogelu pobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn glinigol sgil y coronafeirws (COVID-19) – y cynllun 'gwarchod' gynt [HTML] | LLYW.CYMRU**
**Beth sydd wedi newid?**

Gan fod achosion o'r feirws yng Nghymru wedi lleihau'n sylweddol, mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi adolygu'r cyngor i bobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac wedi argymell y dylid dod â'r mesurau gwarchod sydd ar waith ers 22 Rhagfyr 2020 i ben. Mae hyn yn golygu, o 1 Ebrill:

- y cewch fynd i'ch gwaith, os na allwch weithio gartref, cyhyd â bod y busnes yn ddiogel o ran COVID-19 (wedi cymryd camau rhesymol i leihau'r risg i weithwyr)
- y caiff plant sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain fynd yn ôl i'r ysgol pan fydd hynny'n briodol i'w grŵp oedran;

Dylai pobl ar y Rhesr Gwarchod Cleifion dilyn yr un rheolau â gweddill y boblogaeth yng Nghymru, ond fe'u cynghorir hefyd i gymryd rhagofalon ychwanegol i gadw eu hunain yn ddiogel rhag y coronafeirws.

Mae rhestr o'r rhai a ystyrir yn eithriadol agored i niwed yn y canllawiau diogelu: **Canllawiau ar ddiogelu pobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn glinigol sgil y coronafeirws (COVID-19) – y cynllun 'gwarchod' gynt [HTML] | LLYW.CYMRU**

**Brechlyn COVID-19**
Mae pawb ar y Rhestr Gwarchod Cleifion (16 a throsodd) wedi cael cynnig brechlyn rhag COVID-19.

Os ydych wedi cael eich ychwanegu at y Rhestr Gwarchod Cleifion yn ddiweddar, cewch flaenoriaeth ar gyfer brechu. Caniatewch tua wythnos o ddyddiad eich llythyr i'w wahodd tra bod systemau'n cael eu diweddaru. Dylai'r bobl sy'n byw gyda chi ddal ati i ddilyn y rheolau a chanllawiau iechyd y cyhoedd tra bydd y rhain ar waith, gan gynnwys os ydych chi neu nhw wedi cael y brechlyn

**Gwaith a chyflogaeth**

Dylech barhau i weithio gartref os yw'n bosibl, ond cewch ddychwelyd i'r gwaith os yw'ch gweithle yn ddiogel o ran COVID-19.

Wrth gynllunio i ddychwelyd i'r gwaith, byddai'n ddoeth siarad â'ch cyflogwr mor gynnar â phosibl ynglŷn â sut y mae gweithwyr yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dylai'ch cyflogwr eich helpu i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel a rhaid iddynt gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws drwy sicrhau bod pellter o 2m yn cael ei gadw rhwng gweithwyr yn eich gweithle (os na allwch weithio gartref).
Dylech gwblhau Asesiad Risg gyda'ch cyflogwr i helpu i ystyried eich ffactorau risg personol ar gyfer Coronafeirws (COVID-19). Mae'r **adnodd** yma'n eich helpu chi i ystyried eich ffactorau risg personol ar gyfer COVID-19 ac yn argymell sut gallwch aros yn ddiogel.
Gan fod y cyngor gwarchod wedi dod i ben ni fydd pobl sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain yn gymwys mwyach am Dâl Salwch Statudol ar sail y cynghori i ddilyn mesurau gwarchod. Fodd bynnag, os yw eich meddyg wedi dweud na ddylech ddychwelyd i'r gwaith oherwydd eich cyflwr iechyd, bydd angen iddo roi nodyn ffitrwydd i chi at ddibenion hawlio

**Tâl Salwch Statudol.**

Mewn rhai sefyllfaoedd mae'n bosibl y bydd yn dal yn bosibl i'ch cyflogwr eich rhoi ar ffyrlo o dan y **Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ar GOV.UK)**, sydd wedi'i estyn tan ddiwedd mis Medi 2021. Dylech drafod â'ch cyflogwr i weld a yw hyn yn bosib
Os Ydych yn cael eich cynghori i beidio a mynychu'r gweithle, fe allech fod yn gymwys i dderbyn Tâl Salwch Statudol. Gellir defnyddio'r llythyrau a anfonwyd at y rhai ar y rhestr cleifion sy'n gwarchod, fel tystiolaeth i hawlio Tâl Salwch Statudol.

Mae cyngor penodol ar unrhyw faterion a hefyd ar hawliau cyflogaeth ar gael drwy fynd ar **wefan Acas** neu ffonio llinell gymorth Acas, 0300 123 1100.

Os ydych yn teimlo bod eich cyflogwr, neu rywun sy'n darparu gwasanaeth ichi, wedi'ch trin yn annheg mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) yn cynnig gwasanaeth cynghori am ddim. Mae'r gwasanaeth ar gael drwy ffonio 0808 800 0082, drwy ffôn testun 0808 800 0084 neu ar y **wefan Gwasanaeth Cynghori ar Chymorth Cydraddoldeb**.

Os oes gennych bryderon ynghylch eich iechyd a'ch diogelwch yn y gwaith, gallwch eu codi gydag unrhyw gynrychiolydd o'r undeb llafur sy'n gyfrifol am ddiogelwch, neu gyda'r sefydliad sy'n gyfrifol am orfodaeth yn eich gweithle, naill ai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu'ch awdurdod lleol.

Rhaglen cymorth cyflogaeth sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus yw Mynediad at Waith. Ei nod yw ceisio helpu mwy o bobl anabl i ddechrau gweithio neu i barhau i weithio. Gall ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol i bobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor. Gall darparu cymorth pan fo angen help neu addasiadau ar rywun y tu hwnt i addasiadau rhesymol.

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen Mynediad at Waith:

- ewch i **Mynediad at Waith (ar GOV.UK)**
- ffoniwch y llinell gymorth Mynediad at Waith ar 0800 121 7479

I gael gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i chi, ewch i'r **wefan ar ddeall y credyd cynhwysol (ar GOV.UK).**

**Plant a phobl ifanc**

Gan fod ein dealltwriaeth o COVID-19 wedi cynyddu, rydym nawr yn gwybod mai ychydig iawn o blant a phobl ifanc sydd yn y grŵp risg uchaf o salwch difrifol yn sgil y feirws. Cafodd **canllawiau** ar hyn a luniwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Meddygol yr haf diwethaf. Mae meddygon eisoes wedi bod yn adolygu pob plentyn a pherson ifanc a gafodd eu cynnwys i ddechrau yn y grŵp eithriadol o agored i niwed yn glinigol i gadarnhau a ddylent gael eu cynnwys yn y grŵp risg uchaf o hyd.

**Staff neu blant mewn 'mwy o berygl'**

Yng nghyd-destun COVID-19, mae unigolion sydd mewn 'mwy o berygl' yn wynebu risg uwch o salwch difrifol yn sgil COVID-19. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl dros 70 oed, menywod beichiog a'r rheini sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig. Gall staff gynnal

hunanasesiad drwy adnodd asesu risg Covid-19 ar gyfer y gweithlu.(isod) Bydd yr adnodd yn helpu i nodi'r camau y gellir eu cymryd. Dylai pob lleoliad barhau i gynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rheoli ar waith i leihau'r risgiau hynny, fel golchi dwylo'n rheolaidd, hylendid arwynebau, a systemau unffordd.

Dylai pob merch feichiog (ar unrhyw gam o'r beichiogiogrwydd) gynnal asesiad risg unigol. Mae hyn oherwydd y gallai menywod beichiog fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd gallai eu rhoi mewn mwy o berygl o salwch difrifol o goronafirws a dylai ddilyn y **canllawiau cenedlaethol** diweddaraf. **Coronavirus (COVID-19): advice for pregnant employees - GOV.UK (www.gov.uk)**
Mae Canllawiau i bobl, gan gynnwys plant, sy'n wynebu risg uchel iawn o ddatblygu salwch difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r coronafeirws, gan fod ganddynt gyflwr iechyd difrifol iawn yn barod, ar **gael**.

**Adnodd asesu risg COVID-19 Cymru gyfan ar gyfer y gweithlu**

Datblygwyd yr Adnodd Asesu Risg ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol y bernir eu bod yn agored i niwed neu'n wynebu risg uwch, waeth beth fo'u hethnigrwydd.
Mae'r adnodd hwn: **https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu** yn asesu ffactorau risg unigol.Fe'i addaswyd i'r sector gofal plant/addysg. Bydd y Cylch yn defnyddio'r adnodd hwn i helpu aelodau o staff i ystyried eu statws iechyd a lles eu hunain, a helpu gweithwyr a chyflogwyr i nodi, asesu a thrafod y risgiau a'r camau y gallant eu cymryd i'w lliniaru.

**Plant sydd yn mynychu mwy nag un lleoliad**

I rhai teuluoedd, mae defnyddio gofal plant y tu allan i'r ysgol neu ofal cofleidiol yn allweddol i gynorthwyo plant i ddychwelyd i'r ysgol a rhieni i weithio. Lle bynnag y bo modd, dylid cadw hyn i'r lleiafswm, ond mewn rhai achosion mi fydd yn anochel, ac mae hynny'n arbennig o wir ar gyfer addysg gynnar.

Os yw'r plentyn yn mynychu addysg a gofal plant, a hynny ar draws dau leoliad neu safle, bydd yn bwysig sicrhau bod ysgolion a lleoliadau gofal plant i gyd yn deall y trefniadau trosglwyddo ac yn glir pryd fydd y plentyn ym mhob lleoliad a beth yw'r trefniadau casglu a chludiant.

Caniateir mynychu mwy nag un lleoliad lle nad oes dewisiadau amgen eraill; bydd angen gweithio mewn partneriaeth agos rhwng ysgolion, lleoliadau gofal plant a rhieni. Yn ddelfrydol, dylai plant aros yn yr un grŵp cyswllt ar draws lleoliadau, ac os amheuir bod achos o COVID yn y naill leoliad neu'r llall, sy'n effeithio ar y plentyn hwnnw a'i grŵp cyswllt, rhaid hysbysu'r ddau leoliad a chydweithio i nodi cysylltiadau. Er mwyn cefnogi hyn, dylai pob lleoliad gadw cofnod o unrhyw blant sy'n mynychu sawl lleoliad gofal plant.
Dyma rai ffyrdd posibl o roi plant mewn grwpiau yn ystod gofal cofleidiol neu'r tu allan i oriau ysgol:

- Yn ôl dosbarth;

- Yn ôl grŵp oedran;
- Yn ôl ysgol.

Dylai lleoliadau ystyried sut gallant weithio gyda rhieni neu ofalwyr i gytuno ar ffyrdd o reoli unrhyw deithiau anghenrheidiol, gan gynnwys codi a gollwng yn yr ysgol, er mwyn lleihau'r angen i ddarparwr deithio gyda grwpiau o blant. Os oes angen teithio, dylai darparwyr wneud eu gorau glas i wneud yn siŵr bod plant yn teithio gyda'r un grŵp cyson y byddant yn rhan ohono yn y lleoliad. Dylid gwneud pob ymdrech i beidio â chymysgu plant o wahanol leoliadau mewn unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio, oherwydd byddai hyn yn tanseilio'r gwaith o gael grwpiau ar wahân yn y lleoliad. Dylai plant dros 11 oed wisgo **gorchudd wyneb** wrth gael eu cludo gan y lleoliad.

Os oes angen i blant fynychu mwy nag un lleoliad, bydd angen i rieni, gofalwyr, ysgolion a lleoliadau drafod y risgiau hyn ac ystyried sut mae eu rheoli i leihau lledaeniad y feirws. Bydd hyn yn golygu rhieni, ysgolion a lleoliadau yn gweithio mewn partneriaeth agos i lawn ystyried sut gallant sicrhau darpariaeth effeithiol ochr yn ochr â'u mesurau diogelu ehangach. Caiff lleoliadau eu hatgoffa bod yn rhaid i drafodaethau â rhieni am faterion iechyd aros yn gyfrinachol ac ni ddylid rhannu gwybodaeth, oni bai fod y rhiant neu'r gofalwr wedi cytuno i hynny.

Mae'n bwysig bod lleoliadau'n cael yr hyblygrwydd i reoli ac i ymateb i risgiau mewn ffordd briodol. Wrth i leoliadau geisio lleihau'r risgiau o drosglwyddo'r haint, dylent ystyried yr Hierarchaeth o Reolaethau Risg :
**Mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant: cadw gofal plant yn ddiogel [HTML] | LLYW.CYMRU**

Os yw plentyn yn profi'n bositif, yn dangos symptomau Covid-19 neu wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif, rhaid iddo **hunanynysu** gartref a pheidio â mynychu *unrhyw* leoliad gofal plant.

**Mesurau Lleihau Risgiau**

Mae atal lledaeniad Coronafirws (COVID-19) yn golygu ystyried a gweithredu i leihau trosglwyddiad uniongyrchol (er enghraifft, pan fydd rhywun mewn cysylltiad agos â'r hylifau corfforol o disian neu beswch) a throsglwyddo anuniongyrchol (trwy gyffwrdd ag arwynebau wedi halogi). Bydd y Cylch yn defnyddio ystod o ddulliau a chamau gweithredu i wneud hyn. Mae'r camau hyn o'u gweithredu ar y cyd, yn creu system gynhenid fwy diogel, lle mae'r risg o drosglwyddo haint yn cael ei leihau'n sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Ymbellhau Cymdeithasol**

Ceir gwybodaeth manwl gan Lywodraeth Cymru YMA https://gov.wales/coronavirus-social-distancing-guidance?_ga=2.216947414.1592140737.1591598005-898157265.1591598005.

Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol yn gamau y gallwch eu cymryd i leihau rhyngweithio cymdeithasol rhwng pobl ac yn enwedig oedolion. Bydd hyn yn helpu i leihau

trosglwyddo Coronafeirws (COVID-19). Bydd hi'n anodd iawn gweithredu mesurau ymbellhau cymdeithasol mewn Cylch Meithrin gyda phlant ifanc. Byddwn yn cymryd y mesurau yn y polisi hwn fel modd o wneud popeth yn ein gallu i gadw pawb yn ddiogel ac iach. Dylai oedolion yn y lleoliad gadw pellter o 2 fetr rhyngddynt bob amser er mwyn osgoi lledu unrhyw haint rhwng plant.

**Gweithio mewn grwpiau**

Un o'r mesurau diogelu pwysicaf gallwn ei gymryd i leihau trosglwyddo heintiau ydy lleihau cyswllt rhwng niferoedd mawr o blant a staff. Er mwyn sicrhau bod pawb yn cysylltu gyda chyn lleied o bobl â phosibl, byddwn yn mabwysiadu dull o weithio mewn grwpiau er nad oes gofyn cyfyngu mwyach i 8 neu lai o blant .Nid oes modd disgwyl i blant 0-5 oed i gadw pellter o 2 fetr felly ein nod yw lleihau cysylltiad rhwng plant ar raddfa eang.
Bydd y Cylch Meithrin yn rhoi plant mewn grwpiau.Bydd y Cylch yn ceisio sicrhau nad yw plant o grwpiau gwahanol yn chwarae gyda'i gilydd os yn bosibl.
Bydd y Cylch yn ystyried pa newidiadau bydd angen eu gwneud i'r amgylchedd i hwyluso hyn (gweler isod).

Bydd y plant yn aros yn y grwpiau hyn i fynd allan i chwarae. Bydd yr un aelod o staff yn aros gyda'u grŵp am ddiwrnodau yn olynol cyn belled ag sydd yn bosibl.

Os yw plentyn yn mynychu mwy nag un lleoliad, er enghraifft ysgol a gofal cofleidiol neu ofal plant y tu allan i'r ysgol, dylai'r plentyn aros yn yr un grŵp yn y ddau leoliad lle bynnag y bo modd. Nid yw cymysgu plant o grwpiau gwahanol, neu ysgolion gwahanol, yn gyson â'r angen i leihau'r lefelau cyswllt yn gyffredinol. Bydd angen i rieni, penaethiaid a lleoliadau drafod y risgiau ac ystyried sut i'w rheoli er mwyn lleihau lledaeniad y feirws. Bydd hyn yn golygu bod gofyn i rieni, ysgolion a lleoliadau weithio gyda'i gilydd ac yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd.

Os yw aelod o staff yn gweithio mewn mwy nag un lleoliad, neu sydd ag dwy swydd, dylai'r unigolyn ddilyn gweithdrefnau hylendid y Cylch gan newid eu dillad wrth gyrraedd y Cylch a golchi dwylo'n drwyadl

Gofynnir i leoliadau ystyried hefyd sut y gallant leihau'r risg o gyswllt ehangach, gan gyfyngu ar y cadwyni trosglwyddo.

Bydd y Cylch Meithrin yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cysondeb staffio. Os bydd y Cylch yn defnyddio staff banc bydd disgwyl iddynt weithio am gyfnod o wythnos ar y tro nid am ddiwrnod ar y tro.

**Ymwelwyr**

Dim ond ymwelwyr hanfodol fydd yn cael mynediad i'r Cylch Meithrin. Bydd angen i'r Cylch benderfynu pwy fydd rhain ag asesu risg cyn caniatâi ymwelwyr. Ni ystyrir rhieni neu ddarpar rieni sydd am ymweld â'r feithrinfa yn ymwelwyr hanfodol.

Dylid cadw cofnod o fanylion pob ymwelydd i'r Cylch Meithrin ar gyfer gofynion Profi, Olrhain a Diogelu gan storio'r wybodaeth yn ddiogel. Cyfeiriwch at bolisi diogelu data'r Cylch

**Mesurau Rheoli Haint**

**Hylendid Dwylo**

Mae hylendid dwylo yn hollbwysig cyn ac ar ôl bob cyswllt uniongyrchol gyda phlentyn, ac ar ôl glanhau cyfarpar a'r amgylchedd. Dylid golchi dwylo'n drylwyr am 20 eiliad gyda sebon a dŵr. Gellir defnyddio hylif diheintio dwylo ag alcohol os nad yw'r dwylo'n amlwg yn fudr ac os nad oes sebon a dŵr ar gael. Fodd bynnag, mae golchi dwylo trylwyr gyda sebon a dŵr yn fwy effeithiol na defnyddio hylif diheintio dwylo. Dylid sychu dwylo'n drylwyr ar ôl eu golchi, gan ddefnyddio papur sychu dwylo untro. Nid yw defnyddio peiriannau sychu dwylo yn cael ei argymell.

Dylai plant gael eu goruchwylio os ydynt yn defnyddio glanweithydd dwylo, o ystyried y risgiau o ran amlyncu a sblasio posibl i'r wyneb a'r llygaid. Dylai plant bach a'r rhai ag anghenion cymhleth barhau i dderbyn cymorth i lanhau eu dwylo'n iawn. Gellir defnyddio cadachau glanhau sy'n gyfeillgar i'r croen fel dewis arall.
Fodd bynnag, mae golchi dwylo'n drylwyr â sebon a dŵr yn fwy effeithiol na defnyddio glanweithyddion dwylo. Dylid sychu dwylo'n drylwyr ar ôl golchi dwylo gan ddefnyddio tyweli papur llaw tafladwy. Dylid cael gwared â thyweli papur mewn bin â chaead arno ac ni ddylid caniatáu iddynt orlifo. Dylid gwagio biniau yn aml ac o leiaf yn ddyddiol.

Ni argymhellir defnyddio sychwyr aer.

Dylid golchi neu ddiheintio dwylo er enghraifft:

- wrth gyrraedd y lleoliad;
- ar ôl defnyddio'r toiled neu newid clwt
- cyn ac ar ôl bwyta;
- ar ôl dychwelyd dan dô o chwarae yn yr awyr agored;
- ar ôl bod mewn cysylltiad corfforol â phlant eraill;
- ar ôl tisian neu besychu.

Anogwch staff a phlant i beidio â chyffwrdd eu hwyneb.

Ar gyfer tisian a phesychu – mae *'ei ddal, ei roi yn y bin, ei ladd a golchi'ch dwylo'* yn allweddol. Dylid defnyddio hancesi defnydd untro i orchuddio'r trwyn a'r geg wrth disian, pesychu neu sychu a chwythu'r trwyn. Dylid rhoi hancesi papur mewn biniau ar wahân â bag dwbl yn syth ar ôl eu defnyddio a'u gwaredu'n ddiogel. Dylid gwagio'r biniau, eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd gydol y dydd. Mae bagiau bioddiraddadwy (*Biodegradable*) e.e. plastig startsh yn dderbyniol er mwyn lleihau gwastraff plastig)

Ystyriwch sut mae annog plant ifanc i ddysgu ac ymarfer yr arferion hylendid personol hyn drwy gemau, caneuon ac ailadrodd.

Efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau er mwyn dilyn cyngor iechyd y cyhoedd neu efallai y bydd golchi'u dwylo'n aml yn peri loes iddynt. Bydd staff yn gwybod ble mae hyn yn debygol o fod yn wir a dylent ystyried sut orau y gallant gefnogi plant unigol.

**Arferion hylendid dwylo da**:

1) Defnyddiwch ddŵr cynnes a sebon a golchi am 20 eiliad
2) Peidiwch byth â rhannu dŵr mewn bowlen gyffredin wrth olchi dwylo
3) Defnyddiwch sebon (does dim angen defnyddio sebonau sydd wedi'u hysbysebu fel rhai gwrthfacteria neu wrthseptig)
4) Sychwch eich dwylo'n drwyadl gan ddefnyddio tyweli papur.
5) Dylai bin arbennig, gyda leinin, y mae'r plant yn gallu ei ddefnyddio'n hawdd cael ei ddarparu ar gyfer taflu'r tyweli llaw
6) Dylai sylwedd rhwbio dwylo gyda 60% ohono yn alcohol fod ar gael i'w ddefnyddio wrth y fynedfa i ymwelwyr hanfodol (ond nid i'w ddefnyddio yn lle dŵr a sebon i staff a phlant)
7) Mae'n bosibl bydd angen help ar blant bach i olchi eu dwylo yn drwyadl. Cofiwch ganiatáu amser i wneud hyn yn eich amserlen newydd.
8) Nid fydd staff yn gwisgo gemwaith arddwrn (gan gynnwys oriawr), ewinedd ffug na phaent ewinedd / ewinedd ffug.

9.) Cyfeiriwch hefyd at ganllaw Iechyd Cyhoeddus Cymru -*Yr amser a argymhellir ar gyfer cadw unigolion draw o leoliadau oherwydd heintiau cyffredin (Gorffenaf 2020)*
https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/recommended-time-to-keep-individuals-away-from-settings-welsh-july-2020/

**Hylendid anadlol da**

Mae'n bwysig sefydlu hylendid da wrth annog y plant i beswch neu disian mewn modd priodol. Dylid peswch, disian neu chwythu trwyn mewn i hances bapur defnydd un waith sydd yn gorchuddio'r wyneb neu i'r benelin lle nad oes hances gerllaw.

**Profi Asyptomatig**

Er mwyn adnabod oedolion asymptomatig yn gyflym a lleihau'r tebygolrwydd o glystyrau ac achosion mewn lleoliadau,mae profion coronafirws canlyniad cyflym (COVID-19) ar gael i'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau o Chwefror 2021.
Mae pecynnau profi adref yn cael eu cynnig i bob lleoliad cofrestredig sydd ar agor er mwyn i staff allu cymryd profion dwy waith yr wythnos. Mae profi yn wirfoddol, ond mae'r rheini sy'n gymwys yn cael eu hannog yn gryf i gymryd rhan er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo asymptomatig yn y gweithle.

I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at **Polisi Profion Asymptomatig ar gyfer Covid-19**

**Brechu**

Yng Nghymru,blaenoriaethau cyntaf y rhaglen frechu yw atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19, ac amddiffyn staff a systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno y bydd staff sydd yn darparu gofal personol agos i rai o'n plant mwyaf bregus ag anghenion meddygol cymhleth yn cael eu cynnwys fel rhan o'r rhestr flaenoriaeth ar gyfer brechu yn unol â gweithwyr gofal cymdeithasol.

Byddai disgwyl i'r gofal a ddarperir fod y tu hwnt i dasgau cymorth dyddiol a gofal plant arferol y byddai rhoddwyr gofal yn eu darparu ar gyfer plentyn. Dylai fod yn aml a gall gynnwys tasgau fel, er enghraifft, gofal tiwb tracheostomi, sugno'r llwybr anadlu, adleoli i reoli mannau pwyso, ac ymyriadau gofal fel ffisiotherapi anadlol.

Am wybodaeth bellach am safiad y Cylch Meithrin ynghylch brechu ymarferwyr, cyfeiriwch at: **Polisi Brechu - Ymarferwyr**

**Dysgu, gofal a chwarae**

Gall newidiadau i'r drefn arferol achosi straen i blant. Bydd ymarferwyr yn ystyried sut mae cyflwyno trefniadau newydd mewn ffordd hwyliog, a thawelu meddwl plant. Wrth gynllunio pob gweithgaredd bydd y posibilrwydd o gynnal y gweithgaredd tu allan yn cael ei ystyried. Mae manteision lles i fod tu allan ac mae manteision o safbwynt feirws Covid-19.

- Mae tystiolaeth yn dangos bod risg haint yn llai tu allan
- Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r feirws yn byw yn hir tu allan mewn golau haul
- Mae ymbellhau cymdeithasol yn haws i'r wneud tu allan ac felly mae'n haws i ymarferwyr oruchwylio niferoedd mwy o blant[1]

Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol - megis plant sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau - dylid gweithio gyda'r Awdurdod Lleol yn ogystal â gyda rhieni i benderfynu sut orau i barhau i helpu'r plant hyn i aros yn iach.

Os yw'r plant yn symud o un ardal ddysgu i ardal arall yn eu grwpiau dylid glanhau y mannau hyn **cyn** i'r grŵp nesaf ddod i'w ddefnyddio. Bydd gweithdrefnau glanhau yn dod yn rhan naturiol o amserlen y dydd a bydd y Cylch yn annog plant i helpu a chanu tra fod y defodau glanhau byrddau a chadeiriau neu offer arall yn digwydd (os ydyw yn gorfod digwydd yng nghanol eu amser Cylch, a bod dim modd o symud y plant i ardal arall yn ddiogel er mwyn glanhau).

Er mwyn lleihau nifer y plant fydd yn defnyddio un ardal chwarae, bydd y Cylch yn cytuno gyda'r ysgol neu landlord amserau defnydd penodol. Cyn i blant y Cylch ddefnyddio'r iard / maes chwarae bydd y staff yn sicrhau bod offer sydd yn cael eu cyffwrdd gan blant yn cael eu glanhau yn drylwyr.

Bydd y cylch yn dilyn gweithdrefn gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus yr ysgol.

[1] Keep Education Safe – Operational guidance for schools and settings

Bydd cyfarfodydd staff yn digwydd tu allan (os yn bosibl) a bydd y Cylch yn rhoi ystyriaeth i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni tu allan (os yn bosibl). Pan na fydd hyn yn bosibl bydd rhaid trefnu cyfarfod gyda rhiant mewn man ble nad oes unrhyw bersonau arall yn gweithio neu chwarae gan gadw 2 fetr o bellter.

**Offer ac Adnoddau**

Bydd pob adnodd a thegan yn cael ei drin yn unol â'r cyngor a geir yn y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Lleoliadau Gwarchod Plant a Grwpiau Chwarae)
Ni fydd y Cylch yn caniatáu i blant ddod â theganau o'r cartref. Os ydy rhiant / gofalwr yn datgan bod hyn yn achosi gofid afresymol i blentyn (er enghraifft os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol) bydd y Cylch yn cael cyfarfod i drafod pob sefyllfa unigol.

Dylid cyfyngu ar chwarae gyda thywod, dŵr, clai/toes chwarae a choginio a gweithgareddau chwarae budr eraill, a dim ond os gellir glynu wrth y canllawiau perthnasol ynghylch hylendid a glanhau yn y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant y dylid ymgymryd â nhw. Os na ellir cadw at y canllawiau, ni ddylid gwneud y gweithgareddau hyn. Ni ddylai gweithgareddau gynnwys cyswllt rhwng plant.

**Awyru**

Dylai'r Cylch Meithrin sicrhau bod digon o awyr iach. Lle mae yna systemau awyru mecanyddol canolog neu leol, dylid eu haddasu i ganiatáu cymaint â phosibl o awyr iach. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu'r systemau yn ôl eu harfer. Dylid dechrau awyru'r dosbarthiadau cyn cychwyn y sesiynau a dylid parhau ar ôl i'r sesiynau ddod i ben. Os oes gan Gylch Meithrin unedau awyru ffiltrau, dylid bod yn fwy gofalus nag arfer wrth eu newid. Dylid gwirio neu addasu systemau awyru i sicrhau nad ydynt yn addasu'r lefelau awyru yn awtomatig yn ôl faint o bobl sydd yn yr adeilad. Gall y Cylch Meithrin ymgynghori â chanllawiau'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar systemau awyru**.

Lle mae'r Cylch Meithrin yn dibynnu ar awyr iach naturiol, gan gynnwys agor ffenestri a drysau, dylid parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, wrth sicrhau bod cymaint o awyr iach â phosibl yn dod i mewn i'r dosbarth, cydnabyddir y bydd angen cydbwyso hynny â chynnal tymheredd rhesymol a'r risgiau sydd ynghlwm wrth agor ffenestri. Dylid adolygu'r Asesiad Risg o ran Diogelwch Tân bob amser cyn cadw unrhyw ddrysau mewnol ar agor.
Yn y gaeaf, mae'r angen am awyru da yn parhau'n strategaeth bwysig ar gyfer lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws. Bydd yn bwysig caniatáu cyn gymaint o gylchrediad aer a phosibl drwy ddefnyddio fentiau, ffenestri a drysau tra'n parau i gynnal awyrgylch cyfforddus. Gellid agor ffenestri a drysau am bum munud cyn i bobl gyrraedd neu cyn i sesiynau ddechrau a gyda'r nos ar ôl i bawb adael er mwyn i'r aer gylchredeg. Mewn tywydd oerach dylid agor ffenestri yn ddigon i ddarparu awyru cefndir cyson, a'u hagor yn llawnach yn ystod egwyliau i lanhau'r aer yn y gofod. Agorwch y drysau ar ffenestri am rai munudau yn ystod y dydd er mwyn gadael i awyr iach ddod i mewn. Gall agor drysau mewnol hefyd gynorthwyo gyda

chynyddu trwybwn aer (cyn belled nad ydynt yn ddrysau tân a lle maent yn ddiogel i wneud hynny).

Nid oes rhaid agor ffenestri a drysau yn llawn er mwyn cael y lefelau gofynnol o awyr iach. Gellir eu agor yn rhannol. Gan gydweithio â'u Hawdurdod Lleol, bydd angen i arweinwyr ystyried sut i awyru'r Cylch yn y ffordd fwyaf priodol, a dylid dechrau drwy ymgynghori â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gellir awyru ystafelloedd yn llawnach cyn iddynt gael eu defnyddio nesaf.

Er bod gwella'r cyflenwad awyr iach yn allweddol, dylai'r Cylch Meithrin barhau i sicrhau bod mesurau ehangach- cadw pellter cymdeithasol, hylendid personol a glanhau ychwanegol yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

**Newid Clwt/Cewyn / Mynd i'r Tŷ Bach**

Bydd arferion defnyddio ffedogau a menig wrth newid Clytiau/Cewyn neu wrth helpu plentyn i lanhau ei hun pe bai angen, yn parhau. Byddwn yn defnyddio menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol i blentyn, gan gynnwys gofal ymarferol megis ymolchi, mynd i'r toiled, neu gymorth cyntaf a rhai triniaethau clinigol megis bwydo â chymorth
Rydym yn sylweddoli bod angen i staff gofal plant ddarparu gofal cyswllt agos i blant bach, gan gynnwys mynd i'r toiled, newid clwt a bwydo. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd staff ddilyn y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant gan ddefnyddio ffedogau a menig yn ôl yr angen.

Nid oes rheswm penodol pam nad oes modd i wahanol grwpiau o blant rannu toiledau. Ond lle bo'n bosibl, byddwn yn darparu cyfleusterau toiledau ar wahân i leihau risgiau cysylltiadau rhwng grwpiau/os nad yw hynny'n bosib, byddwn yn defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r toiled a sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd

**Glanhau a diheintio**

Bydd gosod trefn lanhau lym yn allweddol wrth ail-agor y Cylch Meithrin. Mae'n rhaid i bob arwyneb mae plant ag oedolion yn ei gyffwrdd cael ei lanhau yn rheolaidd a cheir cyngor ychwanegol am hyn yn Atodiad 8 (Tudalen 39) o'r Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Lleoliadau Gwarchod Plant a Grwpiau Chwarae)

Dylid glanhau a diheintio cyfarpar, teganau ac arwynebau, gan gynnwys y rheini ym mhob rhan o'r lleoliad, fel toiledau, sinciau, tapiau a mannau newid, byrddau a handlenni, yn aml yn unol â'r Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant. Dylai darparwyr ystyried tynnu teganau meddal a theganau anodd eu glanhau (fel y rheini sydd â rhannau cymhleth). Dylid hefyd glanhau a diheintio cyfarpar awyr agored a gatiau mynediad yn aml.

Bydd Cylch Meithrin Y Felinheli yn cadw rota lanhau a'i ddiweddaru 'nôl yr angen. Gweler Atodiad 9 o'r Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5

[oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Lleoliadau Gwarchod Plant a Grwpiau Chwarae)] am enghraifft o amserlen lanhau.

Os yw'r Cylch yn cyfarfod mewn ystafell ble bu plant gwahanol neu ddefnyddwyr eraill yn bresennol o'u blaenau, bydd y Cylch yn gwneud trefniadau i sicrhau bod yr ystafell a'r tai bach a'r mannau cymunedol wedi eu glanhau cyn i'r plant ddod i'r lleoliad.

**Yr Amgylchedd**

**Symud o gwmpas y lleoliad**

Bydd y Cylch yn ystyried os oes modd creu system o symud mewn un ffordd o gwmpas yr adeilad i osgoi grwpiau o blant a staff yn ymgynnull yn agos at ei gilydd. Bydd newidiadau i hwyluso'r symudedd yma yn cael eu nodi yn yr asesiad risg.

**Dodrefn y Cylch:**

Bydd y Cylch yn ystyried oes modd o newid y dodrefn a'r ardaloedd chwarae er mwyn lleihau cysylltiad rhwng grwpiau a hwyluso mesurau rheoli haint. Bydd newidiadau sydd yn cael eu gwneud er mwyn hwyluso gweithgareddau yn cael eu nodi yn yr asesiad risg.

**Dillad**

Mae angen i staff wisgo dillad gwaith ffres a glan bob dydd. Os yw'r aelod o staff yn teithio i'r gwaith bydd angen iddo/iddi ddod a chyflenwad o ddillad glan gyda nhw (neu eu cadw yn y Cylch) fel bod modd iddynt:

1. Newid i'w dillad gwaith glan ar ôl cyrraedd y gweithle
2. Ar ddiwedd y dydd mae angen tynnu'r dillad hyn CYN mynd adref fel nad yw staff yn gwisgo dillad gwaith mewn i'w cartrefi.
3. Bydd angen golchi dillad gwaith ar ôl pob dydd a'i golchi ar y tymheredd uchaf posibl i'r eitem hwnnw o ddillad.
4. Cadw esgidiau gwaith yn y gweithle a'i newid ar ddechrau a diwedd pob dydd.
5. Dylai plant wisgo dillad glan bob dydd os yn bosibl. Bydd angen delio gyda hyn mewn modd sensitif gan ystyried amgylchiadau ymarferol pob plentyn.

Bydd y Cylch Meithrin yn darparu dillad ychwanegol i'w gwisgo yn y lleoliad yn ôl yr angen.

**Defnyddiau meddal**

Rhaid golchi unrhyw ddefnyddiau meddal fel clustogau yn aml.
Rhaid golchi dillad gwely plant ar ddiwedd pob dydd.

**Cyfarpar Diogelu Personol (*PPE*)**

Bydd staff sydd yn arfer defnyddio *PPE* fel menig a ffedog wrth ofalu ar ôl plant yn parhau i wneud. O dan amodau penodol pan fydd plentyn yn dangos symptomau Covid-19 bydd angen defnyddio offer ychwanegol fel masg rhag hylif a gorchudd llygaid.
Os bydd y Cylch yn cael trafferth i gael offer *PPE* mae modd i Lywodraeth Cymru fod yn ddarparwyr o dan amodau arbennig.

Bydd Arweinydd y Cylch yn sicrhau fod pob aelod o staff yn gwybod sut i wisgo a dadwisgo'r cyfarpar diogelu personol yn gywir i leihau risgiau lledu haint. Mae cyngor manwl ar sut i wneud hyn yma. <ile://C:/Users/eleri/Mudiad%20Meithrin/Rheolwyr%20Polisi%20-%20Documents/COVID%2019/Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidelines%20for%20Childcare%20Settings%20V2%20September%202019%20WELSH.pdf>

**Gorchuddion wyneb**

Nid ystyrir bod lleoliadau gofal plant yn fannau cyhoeddus ac felly nid yw gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol mewn lleoliadau gofal plant.

Fodd bynnag, fel rhan o'u hasesiad risg i gefnogi eu gweithrediadau diogel, dylai'r Cylch Meithrin ystyried amrywiaeth o ymyriadau, a allai gynnwys defnyddio gorchuddion wyneb, yn enwedig lle mae cyswllt rhwng oedolion ac oedolion ac ni ellir cynnal pellter cymdeithasol. Os yw'r cylch yn teimlo y byddai angen eu defnyddio, dylid rhoi ystyriaeth ofalus ar sut i wneud hyn yn briodol a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu, yn enwedig y rhai ag anghenion ychwanegol.

Nid yw gorchuddion wyneb yn medru cymryd lle mesurau llawer mwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo. Pan wneir penderfyniad i wisgo gorchudd wyneb, byddem yn annog unigolion i ddefnyddio rhai defnyddio wyneb tri haen / amlddefnydd ailgylchadwy o ansawdd uchel  a'u defnyddio'n gywir, gan orchuddio'r geg a'r trwyn, a chan sicrhau bod eu dwylo yn lân cyn eu gwisgo a'u bod yn golchi eu dwylo ar ôl eu tynnu.

Dylai gorchuddion wyneb gynnwys tair haen, yn unol â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, ond nid oes angen iddynt fod yn fygydau meddygol. Dylai'r Cylch Meithrin hefyd sicrhau biniau gwastraff digonol ar safle ar gyfer y rhai sy'n dewis defnyddio gorchuddion wyneb un defnydd. Nid yw gorchudd wyneb neu feisor yn Gyfarpar Diogelu Personol ac nid ydynt yn gwneud i ffwrdd â'r posibilrwydd y bydd timau Profi Orhain Diogelu yn cysylltu â'r unigolyn.

Gallai'r Cylch Meithrin ystyried cynghori rhieni i wisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant os yw'n anodd cadw pellter cymdeithasol rhwng staff a rhieni. Dylai'r Cylch Meithrin hefyd ystyried ei gyngor ar orchuddion wyneb ar gyfer ymwelwyr hanfodol.

Os yw'r Cylch Meithrin wedi'i leoli ar safle ysgol dylent sicrhau eu bod yn deall ac yn cadw at bolisïau'r ysgol ar ddefnyddio gorchuddion wyneb ac efallai yr hoffech ymgynghori â chanllawiau gweithredol yr ysgol.

Lle bo’r Cylch Meithrin wedi ei leoli ar safle defnydd cymysg, dylent ymgynghori a glynu wrth y canllawiau a ddarperir ar gyfer y safle a pholisïau'r landlord ar wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol.

Nid oes rhaid i blant dan 11 oed wisgo gorchuddion wyneb. Mae cyngor gan y Grŵp Cynghori Technegol yn ei gwneud yn glir mai prin yw'r manteision sydd gan y gorchuddion wyneb ar gyfer pobl o dan 11 oed.

Ni ddylai’r Cylch Meithrin fynnu bod plant yn gwisgo gorchuddion wyneb oherwydd gallai eu trin yn anghywir gynyddu’r risg o drosglwyddo yn anfwriadol. Ond os bydd plant neu rieni/gofalwyr plant yn dewis neu’n dymuno bod y plentyn yn gwisgo gorchudd wyneb ar y ffordd i’r cylch, dylid cael proses glir yn ei lle ar gyfer ei dynnu wrth gyrraedd y cylch. Rhaid dweud wrth blant am beidio â chyffwrdd blaen eu gorchudd wyneb pan fyddant yn ei ddefnyddio neu’n ei dynnu i ffwrdd. Rhaid iddynt olchi eu dwylo’n syth ar ôl cyrraedd, gwaredu gorchuddion wyneb dros dro mewn bin sydd wedi’i orchuddio neu roi gorchuddion wyneb amldro mewn bag plastig y gallant fynd adref gyda nhw, ac yna golchi eu dwylo eto.

Nid yw hi bob amser yn bosibl cadw pellter cymdeithasol mewn lleoliadau gofal plant, yn enwedig ymysg y plant ieuengaf, a dyna pam mae’n rhaid cynyddu’r mesurau atal a rheoli heintiau. Ni ddylai neb na fyddant efallai’n gallu defnyddio gorchudd wyneb yn unol â’r cyfarwyddiadau (e.e. plant ifanc, y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd) wisgo gorchudd o’r fath, oherwydd gallai hynny gynyddu’r risg o drosglwyddo’r haint yn anfwriadol. Os bydd rhieni’n dymuno bod eu plant yn gwisgo gorchudd wyneb, dylid trafod yr agweddau ymarferol ar sut i reoli hyn yn y lleoliad.

Os yw staff mewn Cylch Meithrin yn dymuno gwisgo gorchuddion wyneb, gallant wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r effaith ar gyfathrebu â phlant a'r effaith ar les cyffredinol plant yn hanfodol i unrhyw ystyriaethau ynghylch a yw'r staff yn gwisgo gorchuddion wyneb.

**Gorchuddion wyneb a’r goblygiadau i blant byddar**

Dylid ystyried yn ofalus effaith gwisgo gorchudd wyneb wrth ofalu am blentyn byddar, gan fod cyfathrebu i lawer o bobl fyddar yn dibynnu’n rhannol ar allu gweld wyneb rhywun yn glir. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar wedi darparu’r awgrymiadau canlynol ar gyfer cyfathrebu ar **gyfryngau cymdeithasol** a’i **gwefan**, a allai fod yn ddefnyddiol i staff gofal plant yn hyn o beth

**Unigolion gyda symptomau - Gweithdrefn**

Os ydy plentyn yn dangos symptomau Covid-19 tra eu bod yn y Cylch bydd y weithdrefn hon yn cael ei dilyn. Bydd y Cylch yn

1) Galw’r rhiant i gasglu’r plentyn yn syth
2) Symud y plentyn i ffwrdd o’r plant arall a gofalu amdanynt ar wahân.
3) Bydd un aelod o staff yn aros gyda’r plentyn tu allan neu mewn ystafell ar wahân

4) (Os nad oes man aros tu allan addas neu ystafell ar wahân ar gael bydd y plentyn yn cael ei gadw / chadw 2 fetr i ffwrdd wrth bawb arall heblaw'r aelod o staff sydd yn gofalu amdano)
5) Bydd ffenestr ar agor i sicrhau bod yr awyr yn troelli.
6) Bydd yr aelod o staff sydd yn cysuro a chadw cwmni i'r plentyn yn gwisgo menig rwber, ffedog a masg sydd yn arbed rhag hylif. Os oes risg gall hylif corfforol (er enghraifft o disian) dasgu i'r llygaid bydd yr aelod o staff hwnnw yn gwisgo gorchudd llygaid hefyd.
7) Os oes angen cyngor clinigol arnoch dylech fynd ar-lein i GIG 111 (neu ffonio 111 os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd). Mewn argyfwng, ffoniwch 999 os oes rhywun yn ddifrifol wael. Peidiwch ag ymweld â'r meddyg teulu, fferyllfa, canolfan gofal brys nac ysbyty.
8) Bydd yr aelod o staff a fu yn helpu yn diosg eu cyfarpar diogelu personol yn unol â'r cyfarwyddiadau ac yn gwaredu'r gwastraff yn ofalus i beidio lledu haint. (pwynt 11) Bydd yr aelod o staff hefyd yn newid eu dillad gan sicrhau pan fydd eu dillad yn cael eu golchi eu bod ond yn llenwi dim ond hanner y peiriant golchi ac yn golchi gyda'r dŵr poethaf posibl i'r defnyddiau.
9) Os ydy'r plentyn am ddefnyddio'r tŷ bach tra'u bod yn sâl, dylid defnyddio tŷ bach ar wahân os yn bosibl. Rhaid i'r tŷ bach gael ei lanhau a'i ddiheintio yn drylwyr cyn i unrhyw berson arall gael ei ddefnyddio.
10) Os yw aelod o staff wedi helpu rhywun a oedd yn mynd yn sâl gyda pheswch newydd, parhaus neu dymheredd uchel, nid oes angen iddo fynd adref oni bai ei fod yn datblygu symptomau ei hun. Dylai'r aelod staff olchi eu dwylo'n drylwyr am 20 eiliad ar ôl unrhyw gyswllt â rhywun sy'n sâl.
11) Bydd angen glanhau pobman lle bu'r plentyn ar aelod o staff a phob arwyneb iddynt gyffwrdd diheintydd. Dylai'r glanhawyr wisgo menig a ffedog.
12) Rhaid gosod y gwastraff i gyd mewn bag wedi ei ddyblu a'i storio yn saff am 72 awr cyn ei daflu allan gyda'r sbwriel. Os nad yw'n briodol storio am o leiaf 72 awr, trefnwch iddo gael ei gasglu fel gwastraff heintus Categori B naill ai gan eich awdurdod casglu gwastraff lleol neu gan gontractwr gwastraff clinigol arbenigol. Byddant yn rhoi bagiau gwastraff clinigol oren neu borffor ichi i roi eich bagiau ynddynt fel y gellir anfon y gwastraff i gael ei drin yn briodol.
13) Os angen glanhau ardal ble roedd hylifau corfforol dylid defnyddio cyfarpar diogelu llygaid ceg a'r trwyn yn ogystal a menig a ffedog. Os nad oes modd glanhau neu olchi ardal e.e. gyda matres neu gadeiriau wedi eu gorchuddio â deunydd (*upholstered*) dylid taflu'r eitemau ffwrdd.
14) Hysbysu'r Awdurdod(au) Lleol, AGC a'r Swyddog Cefnogi lleol

**Os ydy aelod o staff yn teimlo yn anhwylus**

Bydd yn rhaid i chi roi gwybod i'r rheolwr cyn gynted â phosibl. Bydd yn rhaid i i'r aelod o staff hunan ynysu am 10 o ddiwrnodau, yn unol â chanllawiau Covid-19.

**Os bydd rhywun o'r Cylch yn derbyn prawf positif am Covid -19**

Bydd angen adrodd y sefyllfa i'r awdurdodau lleol. Ni fydd rhaid cau'r lleoliad o'r rheidrwydd. Bydd y system Profi, Olrhain a Diogelu yn galluogi rheolaeth o'r sefyllfa. Am wybodaeth ewch i https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel

**Os bydd sawl person yn derbyn prawf positif am Covid-19**

Dan yr amgylchiadau hyn bydd angen i chi hysbysu'r Awdurdod Lleol. Bydd arbenigwyr GIG a'r Awdurdod Lleol yn cydweithio i gynghori ar y camau nesaf i atal lledaenu pellach. I'r grŵp bach y mae'r plentyn wedi bod yn derbyn gofal ynddo neu y mae'r aelod staff wedi bod yn darparu gofal iddo, mae hyn yn debygol o olygu y bydd yn rhaid iddynt hunan-ynysu am 10 diwrnod.

| | |
|---|---|
| Rhif / E-bost ar gyfer Ymateb Brys Cymru Gyfan y Tîm Diogelu Iechyd (AWAReTDI): | Rhif ffôn: 0300 003 0032<br>E-bost: AWARe@wales.nhs.uk <mailto:AWARe@wales.nhs.uk><br>(Nid yw'r e-bost hwn yn cael ei fonitro tu allan i oriau swyddfa) |

**Cludo Plant**

Mae'r Cylch Meithrin yn annog plant, rhieni a staff i gerdded neu feicio i'r lleoliad os yn bosibl. Dylid osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau prysur.

Ble mae'r Cylch Meithrin yn cynnig gwasanaeth gofal cofleidiol (*wrap-around*) gyda darparwr addysg leol, mae'r Cylch Meithrin yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau diogelwch plant a staff tra'u bod yn teithio i ac o'r lleoliadau hyn.

Os bydd angen cludiant, dylai hyn sicrhau bod oedolion yn cadw'n briodol at fesurau ymbellhau cymdeithasol gan wisgo gorchudd gwyneb.

Os yw plant yn teithio mewn tacsi gyda phlant eraill, dylid sicrhau bod y plant hyn yn yr un grŵp os yn bosibl.

Ceir manylion pellach am y camau bydd y Cylch yn ei gymryd yn yr asesiad risg.

**Ymbellhau Cymdeithasol wrth deithio**
***(Ceir gwybodaeth fanwl gan lywodraeth Cymru YMA <https://llyw.cymru/coronafeirws-cadw-pellter-cymdeithasol?_ga=2.165571452.256685571.1590160393-707764401.1563457496>)***

Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol yn gamau y gallwch eu cymryd i leihau rhyngweithio cymdeithasol rhwng pobl. Bydd hyn yn helpu i leihau trosglwyddo Coronafeirws (COVID-19).

Dyma rai camau perthnasol i gludo plant ar sut i gadw pellter cymdeithasol:

- Osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus nad yw'n hanfodol, gan amrywio'ch amseroedd teithio er mwyn osgoi'r adeg brysuraf, pan fo hynny'n bosibl.
- Sicrhau os byddwn yn defnyddio bws mini i gludo plant bod pellter o 2 fetr rhwng pob oedolyn.
- Sicrhau fod oedolion yn gwisgo gorchuddion gwyneb.
- Rhaid i unrhyw gerbydau a ddefnyddir i gludo plant gael eu glanhau oleuaf bob dydd a mannau sydd yn cael eu cyffwrdd gan ddefnyddwyr eu di-heintio yn drylwyr ar ôl pob taith
- Dylid ystyried a oes osgoi defnyddio cerbydau a sefydlu trefn bws gerdded gan sicrhau bod plant a staff yn cadw yn eu grwpiau y maent yn rhan ohonynt yn y lleoliad
- Dylai plant a staff olchi eu dwylo cyn mynd ar daith gerdded neu daith bws a dylent olchi dwylo eto ar ôl cyrraedd eu cyrchfan
- Wrth adolygu trefniadau cludo a throsglwyddo bydd angen nodi ardaloedd a gweithredoedd newydd yn asesiad risg y lleoliad.
- Rhaid parhau i ddilyn yr holl ganllawiau yn y Polisi Cludo a Throsglwyddo.

**Casglu a gollwng**
**Ymbellhau Cymdeithasol**
***(Ceir gwybodaeth fanwl gan Lywodraeth Cymru** YMA <https://llyw.cymru/coronafeirws-cadw-pellter-cymdeithasol?_ga=2.165571452.256685571.1590160393-707764401.1563457496>**)***

Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol yn gamau y bydd y Cylch yn eu cymryd i leihau rhyngweithio cymdeithasol rhwng pobl. Bydd hyn yn helpu i leihau trosglwyddo Coronafeirws (COVID-19).

Dyma rai camau perthnasol ar sut bydd y Cylch yn cadw pellter cymdeithasol wrth i rieni adael a chasglu eu plant:

- Gofynnwn i deuluoedd sicrhau mai dim ond un rhiant sydd yn gollwng plant er mwyn osgoi gormod o dorf wrth y fynedfa.
- Bydd aelod o staff yn arwyddo plant mewn ac allan
- Bydd marciau yn cael eu gosod y tu allan ble mae rhieni yn aros i ddangos pellter o 2 fetr fel bod modd i bob rhiant ymbellhau wrth iddynt aros i ollwng a chasglu plant
- Anogir rhieni i ofyn ymlaen llaw os am sgwrs gyda'r staff fel bod modd trefnu nad yw hyn yn amharu ar drefniadau casglu a gadael plant. (Weithiau ni fydd modd gwneud hyn felly byddwn yn gwneud trefniant fel bod modd cael sgwrs breifat gyda rhiant wrth gadw pellter o 2 fetr rhyngom ni.)

**Iechyd a Diogelwch**

**<u>Asesiad Risg</u>**

Bydd Cylch Meithrin Y Felinheli yn cwblhau asesiad risg trylwyr ac yn rhoi trefniadau ar waith i leihau trosglwyddiad heintiau yn y lleoliad. Mae modd rhannu'r asesiad risg hwn gyda rhieni os daw cais i'w weld.

**Byw yn Iach**

Bydd y Cylch Meithrin yn newid arferion bwyd, diod a snac er mwyn sicrhau nad oes modd i'r plant rannu llestri, cyllyll a ffyrc na'r bwyd ei hun.

**ADNODDAU DEFNYDDIOL**

Mae gan Ymgyrch Hylendid Dwylo Cenedlaethol yr Alban becyn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer plant rhwng tair a chwech oed. Mae cynnwys y pecyn ar gael i'w weld a'i lawr lwytho ar gyfer ei ddefnyddio yn http:// www.washyourhandsofthem.com/the-campaign/childrens-pack.aspx.

Yn ogystal, yn 2017, cynhaliodd ICC gystadleuaeth poster golchi dwylo ar gyfer plant oedran cynradd. Mae'r posteri buddugol ar gael i'w lawrlwytho a'u harddangos wrth fasnau ymolchi i annog plant i olchi eu dwylo yn gywir: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/93629

**MANYLION CYSWLLT LLEOL**

| | |
|---|---|
| Rhif / E-bost ar gyfer Ymateb Brys Cymru Gyfan y Tîm Diogelu Iechyd (AWAReTDI): | Rhif ffôn: 0300 003 0032<br>E-bost: AWARe@wales.nhs.uk <mailto:AWARe@wales.nhs.uk><br>(Nid yw'r e-bost hwn yn cael ei fonitro tu allan i oriau swyddfa) |
| Rhif cyswllt ar gyfer Arolygaeth Gofal Cymru: | Rhif ffôn: 0300 7900 126 NEU<br>E-bost:ciw@gov.uk |
| Gyda phwy ddylid cysylltu os oes achosion: | AWARe TDI ar<br>Rhif ffôn: 0300 003 0032<br>E-bost: AWARe@wales.nhs.uk <mailto:AWARe@wales.nhs.uk><br><br>Arolygaeth Gofal Cymru ar<br>Rhif ffôn: 0300 7900 126 NEU<br>E-bost:ciw@gov.uk |